21.12.2021

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
07774 888145

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Arrividerci! Yr asgellwyr arwrol Shane ac Ieuan yn mynd ar daith fawr i'r Chwe Gwlad

Chwe dinas godidog. Dau asgellwr rygbi chwedlonol. Un taith oddi cartref epic.

Yn y gyfres, **6 Gwlad Shane ac Ieuan**, sy'n cychwyn ar nos Fercher 12 Ionawr, bydd y dewin Shane Williams a chyn-gapten Cymru Ieuan Evans yn mynd ar wibdaith i ymweld â chwe prifddinas y Chwe Gwlad - Caerdydd, Rhufain, Paris, Caeredin, Llundain a Dulyn - cyn i'r torfeydd gyrraedd.

Yno, mi fyddan nhw'n ymweld â phob stadiwm gan hel atgofion melys a chwerw, mwynhau'r diwylliannau a danteithion amrywiol, a rhannu gwydryn neu ddau gydag arwyr rygbi rhyngwladol, gan gynnwys Martin Castrogiovanni, Gerald Davies a Will Carling.

Dros dair pennod, mi fyddwn yn clywed hanesion o deithiau chwedlonol a fu, a rhoi blas amserol o bencampwriaeth ryngwladol orau'r byd i gefnogwyr rygbi. Ond sut bydd y ddau yn dod ymlaen gyda'i gilydd? Wel, does dim diffyg edmygedd rhwng y ddau!

Meddai Shane: "Roedd Ieuan just yn *legend*, ac mae fe dal yn *legend*. Bob tro oedd Cymru'n sgori, fi'n credu mai ond Ieuan Evans oedd yn sgorio, a dyna beth fi'n cofio. So i fynd ar y daith yma gydag Ieuan, fi'n hapus iawn. Bydd e'n neis i fynd o amgylch Ewrop gydag un o'r chwaraewyr gorau sydd wedi bod yng Nghymru."

Ychwanega Ieuan: "Cael pobl off eu penolau ac ar eu traed yn sgrechian am fwy a mwy - dyna beth oedd Shane yn gallu gwneud. Dros y 10 mlynedd oedd Shane yn chwarae dros Gymru, roedd chwaraewyr yn mynd yn fwy ac yn fwy o seis, ond fe ddangosodd Shane fod seis ddim yn mynd i stopio fe rhag disgleirio ar y llwyfan rhyngwladol a chodi i frig y gêm.

"Fi'n edrych mlaen i fynd nôl i'r llefydd fi di chwarae, a chael edrych a chofio nôl am y bobl oeddwn i'n chwarae yn eu herbyn, y ffrindiau ti'n creu a'r cofion cynnes sydd yn aros gyda thi - a'r poen hefyd wrth gwrs!"

Cyn hedfan i ffwrdd am Rufain, mae'r daith yn cychwyn yng Nghaerdydd, ble mae'r ddau yn rhannu straeon wrth iddynt ail-fyw'r daith bws araf i ganol y ddinas.

"Yr agosaf da chi i'r stadiwm, mae'r nyrfs yn dechrau cicio mewn," meddai Shane. "Pa bynnag gêm yw e, os wyt ti'n chwarae i Gymru neu Amman United yn Division Three West, yr un teimlad yw e. Wedyn ti'n cyrraedd Caerdydd a gweld maint y stadiwm, a phobl ym mhobman - mae e fel *zombie apocalypse*! Maen nhw i gyd yna gyda'i crysau a'i *daffodils* ac yn barod i fynd.

"Ni’n lwcus da fe, dyma’r lle gorau yn y byd i chwarae rygbi a’r lle gorau yn y byd i wylio rygbi. Mae’n wahanol, mae’n unigryw, mae’n sbesial." meddai Ieuan.

"O ydi. Y stadiwm gorau yn y byd."

**6 Gwlad Shane ac Ieuan**
**Nos Fercher 12 Ionawr, 9.00yh**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Orchard ar gyfer S4C**

21.12.2021

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Arrividerci! Wing wonders Shane and Ieuan embark on epic 6 Nations away trip

Six beautiful cities. Two legendary Welsh wingers. One last epic away trip.

In the S4C series **6 Gwlad Shane ac Ieuan (Shane and Ieuan's 6 Nations)**, Shane Williams and his hero Ieuan Evans will come together to visit each of the Six Nations host cities – Cardiff, Rome, Paris, Edinburgh, London and Dublin – before the crowds descend.

There, they will visit each stadium, enjoy the ample cultural and culinary delights, and share a glass or two with other rugby legends, including Martin Castrogiovanni, Gerald Davies and Will Carling.

Across three episodes, we will hear their first-hand accounts of legendary away trips gone by and give fans a tantalising taste of the world's greatest international rugby tournament. But how will they get on together? Well, there is no lack of admiration for each other!

Shane said: "He was just a legend, and he still is a legend. It felt like every time someone scored for Wales, it was Ieuan Evans, and that's what I remember. So to go on this journey with Ieuan, I'm very happy. It will be nice to see Europe with one of Wales' greatest ever players."

Ieuan added: "Getting people off their seats, on their feet and screaming for more and more, that's what Shane could do. During Shane's 10 years with Wales, the players got bigger and bigger but Shane showed that size could not stop him from shining on the world stage and reach top of the game.

"I'm looking forward to going back to the places I've played and see the people I played against as well. It's the friends and memories you make that stay with you – and the pain, of course!"

Before flying out to Rome, the journey begins in Cardiff where they reminisce the slow match-day bus journey into the city centre and the awaiting red cauldron of Welsh Support.

"The closer you get to the stadium, the more the nerves begin to kick in," said Shane. "Whatever game it was, whether you're playing for Wales or Amman United in Division Three West, the feeling is the same. Then when arrive in the city and see the size of the stadium, and people everywhere – it's like a zombie apocalypse! They're all wearing their red shirts and daffodils, and are ready for it.

"We're lucky aren't we. This is the best place in the World to play rugby and the best place to watch rugby. It's different, it's unique, it's special," said Ieuan.

"Oh yes. It's the best stadium in the world."

**6 Gwlad Shane ac Ieuan**
**Wednesday 12 January, 9.00pm**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**An Orchard production for S4C**